OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 316 (Cy.30)

# COMISIYNYDD PLANT, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *6 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Chwefror 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 74(2) (d) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 9 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

"y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Plant Cymru.

"y cyfnod cychwynnol" ("*the initial period*") yw y cyfnod cychwynnol fel y'i diffinir yn adran 161(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

"y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000.

**Diwygiadau i Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001(**2**) yn unol â'r darpariaethau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(2) Yn dilyn dod i ben y cyfnod cychwynnol, ar gyfer y dehongliad o "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") rhodder y diffiniad canlynol:—

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodir o dro i dro fel Prif Weinidog Cymru o dan adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Diwygier rheoliad 13 fel a ganlyn —

(a) Ar ôl rheoliad 13(2), ychwaneger—

"(2A) Os bydd y Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru yn cyflawni eu priod swyddogaethau o dan y Ddeddf ac o dan Ddeddf Comisiynydd ar gyfer

(**1**) 2000 p.14
(**2**) 2001/2787 (Cy.237)

Pobl Hyn (Cymru) 2006(**3**) ynghylch yr un mater caiff y Comisiynydd lunio adroddiad ar y cyd â'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru."

(b) Yn rheoliad 13(3), yn lle "(1) neu (2)" rhodder "(1), (2) neu (2A)."

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Chwefror 2007

(**3**) 2006 p.30
(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VI o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 sy'n gwneud darpariaeth parthed swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd").

Mae Rhan VI o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 yn darparu ar gyfer gwneud adroddiadau penodol gan y Comisiynydd.

Diwygir Rhan VI er mwyn caniatáu, pan fo'r Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r un mater, i'r Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru lunio adroddiad ar y cyd. Ceir darpariaeth debyg yn Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007.

Yn ogystal mae'r rheoliadau hyn yn diwygio y diffiniad o'r Prif Weinidog yn y Rheoliadau yn union ar ôl terfyn y Cyfnod Cychwynnol a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y diffinir y Prif Weinidog fel y Prif Weinidog a apwyntir o dan adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae Arfarniad Rheoliadol ar effaith posibl y rheoliadau hyn ar gost busnes wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac wedi'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.